BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

Simon Thomas AC,
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

22 Ionawr 2018

Annwyl Simon

**Ymchwiliad i'r tanwariant sy'n deillio o Benderfyniadau'r Bwrdd Taliadau**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 8 Rhagfyr 2017, ac am dynnu sylw'r Bwrdd Taliadau at yr ymchwiliad byr y mae'r Pwyllgor Cyllid yn ei gynnal ar hyn o bryd i ddarganfod sut y mae seneddau eraill, yn y DU ac yn ehangach, yn cyllidebu ar gyfer gwariant sy'n ymwneud â chyflog a lwfansau'r Aelodau.

Bydd y Pwyllgor Cyllid yn gwybod mai swyddogaethau'r Bwrdd Taliadau, fel y'u nodir yn adran 3 o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, yw penderfynu ar lefel y gydnabyddiaeth a'r system ar gyfer rhoi cefnogaeth ariannol i Aelodau'r Cynulliad i'w galluogi i gyflawni eu rolau. Rôl Comisiwn y Cynulliad yw sicrhau bod y gyllideb ar gyfer y Bwrdd Taliadau yn ddigonol i fodloni'r holl rwymedigaethau fel y'u nodir yn y Penderfyniad.

Mewn rhai amgylchiadau, defnyddir y tanwariant ar gyfer amgylchiadau annisgwyl. Enghreifftiau o'r amgylchiadau hyn fyddai'r costau i ddarparu mesurau diogelwch ychwanegol i'r Aelodau yn dilyn llofruddiaeth drasig Jo Cox AS, a phenderfyniadau a wnaed ynghylch amgylchiadau Aelodau unigol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd ddefnyddio ei bwerau eithriadol. Gall y Bwrdd wneud y penderfyniadau hyn, pan fo angen, heb droi at Gomisiwn y Cynulliad yn gofyn am arian ychwanegol. Mae hyn yn gwarchod annibyniaeth y Bwrdd a chyfrinachedd yr Aelodau.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Taliadau@cynulliad.cymru
0300 200 6565

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Taliadau@cynulliad.cymru
0300 200 6565

BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

Pe na bai'r gyllideb yn cael ei defnyddio'n llawn gan yr Aelodau, rōl y Comisiwn yw penderfynu sut i ddyrannu unrhyw danwariant cysylltiedig. Felly, byddai'n amhriodol i'r Bwrdd roi sylwadau ar sut mae'r Comisiwn yn dyrannu'r tanwariant posibl.

Edrychwn ymlaen at dderbyn canlyniad yr ymchwiliad maes o law.

Cofion gorau,

**Y Fonesig Dawn Primarolo**

**Cadeirydd y Bwrdd Taliadau**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.